# A5026 FFORDD HOLWAY, FRON PARK ROAD A WHITFORD STREET, TREFFYNNON

# GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG AR AROS AR UNRHYW ADEG A CHLIRFFORDD SAFLE BWS

## Datganiad o’r Rhesymau dros Gynnig Gwneud y Gorchymyn

Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ac o’r herwydd mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael cyllid i roi mesurau diogelwch sylweddol ar waith yn yr ardal o amgylch Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol y Santes Gwenffrewi.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig cyflwyno gwaharddiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) a Chlirffordd Safle Bws ar y ffyrdd uchod o 7am-7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Bydd Cyflwyno’r Cyfyngiadau arfaethedig ar Aros ar Unrhyw Adeg yn gwella diogelwch cerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd drwy gael gwared ar gerbydau wedi’u parcio mewn lleoliadau allweddol a gwella llif y traffig ger Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol Gynradd y Santes Gwenffrewi. Bydd hefyd yn sicrhau bod mynediad ar gael i drigolion lleol, yn atal rhwystrau ac yn cynnal gwelededd wrth y cyffyrdd a sicrhau nad yw’r cyffyrdd wedi’u rhwystro gan gerbydau wedi’u parcio.

Bydd cyflwyno’r Glirffordd Safle Bws arfaethedig yn ymdrin ag achosion o barcio rhwystrol drwy gael gwared ar gerbydau sy’n parcio’n ddiwahân yng nghilfan safle bws yr ysgol, ac felly’n gwella diogelwch i gerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd.

Er lles diogelwch ar y ffordd, mae’r cynigion yn angenrheidiol i osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy’n defnyddio’r ffordd, neu i atal perygl rhag digwydd.

**Ceir manylion am y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig.**

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NR.
Dydd Gwener 22 Mawrth 2024.